

# Samplo cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'w hadolygu

## Adroddiad ar yr ymgynghoriad

### Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar samplo cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i'w hadolygu.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 6 wythnos o 19 Medi hyd 31 Hydref 2016. Gwnaethom dderbyn 2264 o ymatebion ysgrifenedig.

Ni wnaethom gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, fe wnaethom ddatblygu ein cynigion ar y cyd gyda'n grŵp cynghori a oedd yn cynnwys sefydliadau fferylliaeth a chynrychiolydd cleifion.

Estynnem wahoddiad i weithwyr fferyllol proffesiynol, ein hadolygwyr DPP ac aelodau o'n grŵp cynghori i ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal ag unigolion eraill y gallant gael eu heffeithio arnynt gan y cynigion.

### Ymatebion ysgrifenedig

Derbyniom ymatebion ysgrifenedig gan 22 o sefydliadau a 2242 unigolyn. Nododd fwyafrif helaeth yr ymatebwyr unigol (2189, tua 98 y cant) mai gweithwyr fferyllol proffesiynol oeddent. Dywedodd tua 0.1 y cant (2) eu bod yn aelod o'r cyhoedd. Dywedodd ychydig dros 0.25 y cant (6) eu bod yn fyfyrwr a dywedodd ychydig dan 1 y cant (21) eu bod yn hyfforddai cyn-cofrestru. Disgrifiodd dau ar bymtheg ymatebwr eu hunain fel "arall", yn cynnwys ymchwilydd, meddyg/fferyllydd, a fferyllydd wedi ymddeol. Ni wnaeth gweddill yr ymatebwyr unigol (7, 0.3 y cant) nodi ym mha rinwedd roeddent yn ymateb. Roedd tua 70 y cant (1528) o'r rheini a oedd yn disgrifio eu hunain fel "gweithwyr fferyllol proffesiynol" yn fferyllwyr, tra bod tua 30 y cant (654) yn dechnegwyr fferyllol.

Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'w gweld yn atodiad A.

### Dadansoddiad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r pynciau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl faterion a godwyd yn y cyfraniadau hyn a, lle bo hynny'n briodol, cynhwyswyd hwy yn yr adroddiad. Mae strwythur yr adroddiad yn dilyn strwythur y ddogfen ymgynghori a'r holiadur.

Cyflwynwyd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion ar-lein gan ddefnyddio'r holiadur ymgynghori ffurfiol. Adroddwyd ar yr ymatebion i'r cwestiynau ydy/nac ydy/cytuno/anghytuno/oes/nac oes gan ddangos nifer yr ymatebwyr yn ogystal â chanrannau. Dadansoddwyd ymatebion i'r cwestiynau agored gan ddefnyddio proses codio iteradd, a

oedd yn nodi themâu. Cyflwynir y prif themâu yn yr adroddiad hwn o dan bob cwestiwn perthnasol. Defnyddiwyd y dull hwn hefyd i ddadansoddi'r ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost neu'r post, ac adroddir ar y rhain hefyd.

Dylid nodi er bod dros 2,200 o ymatebion i'r cwestiynau meintiol, ydy/nac ydy/cytuno/anghytuno/oes/nac oes, roedd nifer yr ymatebion i'r cwestiynau ansoddol, agored, yn llawer is. Felly mae'r ymatebion meintiol yn rhoi cyd-destun ehangach y dylid ystyried yr ymatebion ansoddol ynddo.

## Beth a glywsom

Ar y cyfan, cafwyd derbyniad cadarnhaol iawn i'r cynnig i ddefnyddio dull samplo ar gyfer galw am gofnodion DPP gweithwyr fferyllol proffesiynol. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon, gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach a chyflwynwyd ceisiadau am eglurder pellach fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno materion allweddol a godwyd o dan bob adran o'r ymgynghoriad a'n hymateb ni iddynt.

## Eglurder

### Beth a gynigiwyd gennym

Gwnaethom gynnig diwygio un paragraff yn ein fframwaith DPP. Isod ceir y paragraff diwygiedig gyda'r testun newydd arfaethedig y gwnaethom ymgynghori arno mewn print bras:

“Gall y CFfC ofyn i chi gyflwyno cofnod DPP i'w adolygu ar unrhyw bryd. **Fel arfer, byddwn yn galw am gofnodion DPP sampl wedi ei ddewis ar hap o aelodau bob blwyddyn. Os byddwch yn bodloni gofynion DPP y CFfC, ni fyddwn yn gofyn i chi eto y flwyddyn ganlynol.** Efallai y gofynnir i chi mewn rhai achosion gyflwyno eich cofnod DPP yn amlach na hyn, os bu gofyn i chi ymgymryd â mesurau adferol yn sgil adolygiad o'ch cofnod DPP, er enghraifft, neu os oes gennych hanes o beidio â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'n safonau.”

### Beth a glywsom

#### 1 Ydy'r paragraff diwygiedig yn eglur?

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Ydy	2133	95.14%
Nac ydy	109	4.86%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2242</b>	<b>100%</b>

Fe wnaeth 22 o ymatebwyr neidio'r cwestiwn hwn.

#### 1a Beth arall, os unrhyw beth, y dylid ei ychwanegu neu ei ddileu o'r paragraff?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (95 y cant) yn teimlo bod y paragraff diwygiedig yn eglur ond hefyd gwnaed nifer o sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eglurder a gwelliant.

Awgrymodd un sefydliad y dylai'r paragraff nodi sut y gwneir y sampl ar hap. Awgrymodd eraill y dylai'r paragraff nodi maint y sampl i'w ddefnyddio bob blwyddyn.

Roedd rhai ymatebwyr am gael eglurder ynglŷn â'r materion canlynol:

- diffiniad o gofnod DPP
- ai aelodau cofrestredig neu eitemau mewn cofnod DPP oedd y sampl ar hap
- nifer yr eitemau DPP y mae disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyflwyno fel rhan o gofnod
- amllder y galw am gofnod DPP
- y cyfnod rhybudd ar gyfer cyflwyno cofnod DPP
- hyd yr amser na fyddai gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cael ei alw i gyflwyno cofnod DPP pe bai'n bodloni ein gofynion
- a fyddem yn monitro cyflwyniadau mewn amser real cyn eu bod yn cael eu cyflwyno i ni.

### Ein hymateb

Byddwn yn diwygio geiriad y paragraff i ddarllen:

**“Gall y CFfC ofyn i chi gyflwyno cofnod DPP i'w adolygu ar unrhyw bryd. Byddwn yn galw am gofnod DPP sampl wedi ei ddewis ar hap o aelodau bob blwyddyn. Os byddwch yn bodloni gofynion DPP y CFfC ni fyddwn yn gofyn i chi eto am y ddwy flynedd nesaf<sup>1</sup>. Efallai y gofynnir i chi mewn rhai achosion gyflwyno eich cofnod DPP yn amlach na hyn, os bu gofyn i chi ymgymryd â mesurau adferol yn sgil adolygiad o'ch cofnod DPP, er enghraifft, neu os oes gennych hanes o beidio â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'n safonau.”**

Mae'r mân newidiadau i eiriad y paragraff yn gwella ei eglurder ac yn gwneud yr iaith sy'n ymwneud â chofnod DPP yn gyson â gweddill y fframwaith DPP.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau eglurder a godwyd yn yr ymgynghoriad gan ymatebwyr, isod ceir crynodeb o'r gofynion na wnaethom ymgynghori arnynt ac sydd heb newid. Mae'r fframwaith DPP yn ei chyfanrwydd yn rhoi eglurder ynglŷn â'r gofynion yr ydym yn eu gosod ar gyfer DPP. Os hoffech wybod mwy am ein gofynion, darllenwch y ddogfen fframwaith DPP:

- Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol nodi o leiaf naw eitem DPP y flwyddyn fel rhan o'u cofnod DPP. Mae hyn yn ddisgwyliad ar gyfer parhau'n gofrestrdig fel gweithiwr fferyllol proffesiynol.
- Pan elwir i gyflwyno, rhoddir rhybudd o chwe wythnos. Byddwn ond yn gallu gweld cofnod DPP sydd wedi'i gyflwyno i ni ac ni fydd monitro byw ar gyflwyniadau.
- Mae nifer yr eitemau i'w cyflwyno fel rhan o gofnod DPP yn amrywio ar sail dyddiad cofrestru cychwynnol neu'r adolygiad DPP diwethaf (pa bynnag un yw'r cynharaf) ond nid yw'n mynd y tu hwnt i werth pum mlynedd o eitemau.
- Mae'n bosibl gwneud cais am estyniadau neu nifer gostyngol o eitemau o ganlyniad i gyfnodau o beidio â bod yn ymarfer am resymau megis absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant (nid yw hon yn rhestr gyflawn) ac ymdrinnir â cheisiadau yn unigol. Ni ddylai bylchau mewn DPP fel arfer fod yn hwy na 12 mis.

---

<sup>1</sup> Trafodir y cynnydd mewn cyfnod eithrio yn yr adran sampl

## Samplo

### Beth a gynigiwyd gennym

Gwnaethom gynnig y dylai gofyn am sampl o weithwyr fferyllol proffesiynol wedi ei ddewis ar hap i gyflwyno eu cofnod DPP bob blwyddyn annog cofnodi gweithgareddau DPP yn fwy rheolaidd. Dywedasom y byddai'n caniatáu i ni gyflwyno mwy o wiriadau gweinyddol blynyddol dros amser a chanolbwyntio ein sylw ar weithwyr fferyllol proffesiynol sydd efallai'n ei chael hi'n anos bodloni ein gofynion.

### Beth a glywsom

#### 2 Ydych chi'n cytuno gyda'n dull o alw ar sampl o aelodau cofrestredig i anfon eu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'w hadolygu?

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Cytuno	1850	82.74%
Anghytuno	386	17.26%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2236</b>	<b>100%</b>

Fe wnaeth 28 o ymatebwyr neidio'r cwestiwn hwn.

#### 2a Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, eglurwch pam.


Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (83 y cant) yn cytuno gyda'n dull newydd ar gyfer adolygu cofnodion DPP sampl o aelodau cofrestredig wedi ei ddewis ar hap bob blwyddyn.

Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr a wnaeth sylw y byddai baich ychwanegol yn cael ei rhoi ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai cynnydd mewn llwyth gwaith gweinyddol oherwydd byddai llai o hyblygrwydd ynglŷn â phryd y byddai dysgu yn cael ei gofnodi. Dywedodd eraill bod y pwysau gwaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol, ynghyd â phwysau arall bywyd, yn ei gwneud hi'n anodd cofnodi eu DPP yn rheolaidd a byddai'n rhaid iddynt ganfod amser yn ystod eu diwrnodau sydd eisoes yn brysur. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cynyddu'r amser arfaethedig yn dilyn adolygiad llwyddiannus o gofnod DPP gweithiwr fferyllol proffesiynol i ddwy flynedd neu hwy er mwyn lleihau'r baich ar weithwyr fferyllol proffesiynol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai perfformiad gwael neu arferion cofnodi DPP gwael fynd heb eu canfod o ganlyniad i beidio o reidrwydd ag adolygu cofnodion yr holl weithwyr fferyllol proffesiynol dros gyfnod o amser. Mynegodd ymatebwyr eraill bryderon y gallai'r gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n bodloni'r safonau gael eu cofnodion wedi'u galw i'w hadolygu yn amlach.

Dywedodd rhai ei bod yn well ganddynt i gofnodion DPP gael eu galw unwaith bob pum mlynedd.

Roedd rhai eisiau mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y byddai gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cael eu dewis ar hap. Ac roedd rhai eisiau mwy o wybodaeth am y dystiolaeth sydd gennym sy'n awgrymu y byddai sampl ar hap yn annog cofnodi mwy rheolaidd. Awgrymodd eraill y gallai'r cynigion annog cofnodi gweithgareddau DPP yn llai aml oherwydd y gallai'r siawns o gael galwad i gyflwyno fod yn is.



Dyweddod rhai y dylem, cyn i ni gyflwyno sampl ar hap, gyflwyno gwiriadau awtomataidd ar bob gweithiwr fferyllol proffesiynol, a chwblhau ein holl waith rhaglenni peilot ar gyfer ein newidiadau ehangach ar sut y bydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn rhoi sicrwydd pellach o fodloni safonau proffesiynol.

Awgrymodd ychydig y gallai rhai gweithwyr fferyllol proffesiynol efallai ddim ond cofnodi eu heitemau DPP ar yr adeg pan elwid arnynt i gyflwyno.

Gwnaeth yr ymatebwyr a oedd yn cytuno gyda'r cynnig y pwyntiau canlynol:

- Cyfeiriodd llawer at effaith gadarnhaol y cynnig i annog gwell cofnodi a chofnodi mwy rheolaidd.
- Awgrymodd rhai ein bod yn defnyddio sampl ar hap mwy o faint, neu alw cofnodion DPP pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn rheolaidd ac adolygu sampl ohonynt mewn mwy o fanylder.
- Roedd ychydig o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i ganolbwyntio ar weithwyr fferyllol proffesiynol sydd efallai'n cael trafferth i fodloni ein gofynion DPP a gofynasant i ni ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â lle y gallai cefnogaeth fod ar gael.

Derbyniom adborth ar faterion eraill yn ymwneud â DPP a'n hymagwedd tuag ato. Gellir crynhoi'r rhain yn y modd canlynol:

- Symleiddio'r dull cofnodi er mwyn lleihau'r baich ac atal ailadrodd o ran cofnodi eitemau DPP.
- Lleihau nifer yr eitemau sydd angen eu cofnodi bob blwyddyn.
- Gwella'r dull cofnodi er mwyn ei ganolbwyntio ar fyfyrion ar ddysgu ac ymarfer.
- Gofyn i weithiwr fferyllol proffesiynol gyflwyno ei gofnod DPP fel rhan o adnewyddu cofrestrriad blynyddol.
- Ystyried cyflwyno elfen trafodaeth cymheiriaid er mwyn cynorthwyo i ddilysu gweithgareddau DPP.

Mae'r meysydd hyn i gyd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o'n gwaith i sicrhau ymhellach safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol drwy gydol eu gyrfa ac rydym yn rhagweld ymgynghori ar newidiadau i bob un o'r materion hyn yn ystod Gwanwyn 2017.

Ar fater arall yn ymwneud ag effaith, gofynnwyd i ni ei gwneud hi'n eglur ein harbedion rhagamcanol o tua £200,000 y flwyddyn pe byddem yn symud tuag at y dull sampl. Gwnaed y wybodaeth hon yn gyhoeddus mewn papur Cyngor a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fynd â'n cynigion i ymgynghoriad, ond ni nodwyd y ffigur yn y ddogfen ymgynghori ei hun.

### **Ein hymateb**

Rydym wedi diwygio'r paragraff perthnasol er mwyn caniatáu ar gyfer dwy flynedd o eithriad rhag galwad i gyflwyno cofnod DPP yn dilyn adolygiad llwyddiannus. Byddai'r cyfnod eithrio yn rhedeg o ddyddiad y galw i gyflwyno cofnodion ac yn cwmpasu'r ddau alwad canlynol mewn blynyddoedd dilynol. Roedd y newid hwn mewn ymateb i adborth a ddywedodd:

- Y dylai'r cyfnod gael ei ymestyn

- Pryderon y gallai fod baich ychwanegol ar weithwyr fferyllol proffesiynol o ganlyniad i gael eu galw i gyflwyno bob yn ail flwyddyn

Trwy wneud y newid hwn byddwn yn lleihau'r effaith ar y rheini sy'n bodloni'n llwyddiannus ofynion DPP a hefyd yn lleihau nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gymwys ar gyfer sampl ar hap bob blwyddyn a chynyddu ychydig y siawns bod gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd heb eu galw i gyflwyno am beth amser yn cael eu dewis. Mae hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael â rhai pryderon na fyddwn efallai yn canfod arfer cofnodi gwael gan weithwyr fferyllol proffesiynol sydd heb eu galw gennym yn ddiweddar.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r paragraff gynnwys manylion maint y sampl. Ni fyddwn yn cynnwys maint y sampl yn y paragraff fel bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i dystiolaeth a dadansoddiad o bob galwad ac addasu'r sampl yn briodol. Ni fyddwn yn samplu llai na 2.5% o'r gofrestr ond efallai y byddwn yn samplu mwy ar rai achlysuron, megis pan fyddwn yn gweld cyfran uwch na'r disgwyl o aelodau cofrestredig mewn sampl sy'n cael anhawster i fodloni ein gofynion. Ni fyddwn byth yn samplu mwy o aelodau cofrestredig nag sydd angen i ddod i gasgliadau ynglŷn â pherfformiad ar draws y gofrestr gyfan neu fodloni ein hunain bod cofnodi DPP yn digwydd yn briodol. Byddwn yn gwneud maint y sampl ar gyfer pob blwyddyn yn gyhoeddus ar ein gwefan ac yn Regulate (ein cylchlythyr a anfonir at bob gweithiwr fferyllol proffesiynol) cyn unrhyw alwad.

Roedd rhai ymatebwyr am i ni fod yn fwy eglur ynglŷn â'r broses y byddwn yn ei defnyddio i ddewis ar hap weithwyr fferyllol proffesiynol i gyflwyno eu cofnod DPP. Bob blwyddyn byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Cymryd rhestr o bawb ar ein cofrestr
- Tynnu'r gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd ddim yn gymwys i gael eu galw i gyflwyno. Gall y rhain fod yn weithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi bod ar ein cofrestr am lai na dwy flynedd neu sydd wedi cyflwyno'n ddiweddar ac wedi bodloni ein gofynion.
- Yna rydym yn penderfynu ar faint y sampl a chyfanswm nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol i gael eu galw.
- Yna rydym yn clustnodi rhif i bob aelod cofrestredig cymwys.
- Yna byddwn yn creu cyfres o rifau ar hap a'u cyfateb i bob aelod cofrestredig .

Yn ogystal â dewis gweithwyr fferyllol proffesiynol ar hap, byddwn nawr hefyd yn galw ar weithwyr fferyllol proffesiynol a oedd angen ymdrechion ychwanegol i fodloni'r gofynion DPP (a elwir yn adferiad) oherwydd bod gennym dystiolaeth dda i ddangos eu bod hwy yn fwy tebygol i'w chael hi'n anodd bodloni ein gofynion y tro nesaf y cânt eu galw. Roedd mwy na 40 y cant o weithwyr fferyllol proffesiynol a oedd angen adferiad yn flaenorol angen adferiad eto yn ystod ein hastudiaeth beilot o gymharu â 13 y cant o'r gweithwyr fferyllol proffesiynol a ddewiswyd ar hap. Byddwn hefyd yn parhau i alw am gofnod DPP gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cael eu dychwelyd i'n cofrestr yn ddiweddar. Dros amser efallai y byddwn yn datblygu mwy o dystiolaeth ynglŷn â'r math o ddangosyddion sy'n awgrymu y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol ei chael hi'n anos i fodloni ein gofynion, megis unrhyw gydberthynas rhwng cyflwyno DPP yn hwyr a pherfformiad gwaeth. Rydym yn datblygu'r dystiolaeth hon yn iteraidd ac yn ymatebol i batrymau sy'n ymddangos yn ein data.

Ein bwriad yw galw gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cael anhawster i fodloni ein gofynion yn fwy aml na'r rheini sydd heb, ac awgrymu lle gallant geisio arweiniad ychwanegol i wella pherfformiad yn y dyfodol. Er

mwyn cynorthwyo gweithwyr fferyllol proffesiynol byddwn hefyd yn eu cyfeirio i'r sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau a chofnodi DPP.

Gwnaethom amlygu yn y ddogfen ymgynghori bod gennym gynlluniau i gyflwyno gwiriadau gweinyddol ychwanegol ar gyfer pob aelod cofrestredig er mwyn gwneud yn siŵr bod DPP yn cael ei gofnodi'n flynyddol. Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hyn yn ystod Gwanwyn 2017. Bwriadwn eu rhoi ar waith yn ystod 2018 ochr yn ochr â newidiadau eraill i'n gofynion er mwyn adlewyrchu dull newydd ar gyfer sicrhau safonau i weithwyr fferyllol proffesiynol drwy gydol eu gyrfa. Roeddem yn falch i dderbyn awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'n dull sy'n adlewyrchu nifer o'r meysydd yr ydym wedi bod yn eu harchwilio dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn ymchwil, profion a rhaglenni peilot.

Rydym wedi ymrwmo i wneud newidiadau cynyddrannol i'n dull er mwyn sicrhau safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Gwnaethom nodi'r awgrym y dylem wneud yr holl newidiadau i'n dull ar yr un pryd. Fodd bynnag, credwn y bydd newid cynyddraddol yn lleihau'r effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol a chaniatáu i bobl yr effeithir arnynt gan y cynigion i ystyried eu heffaith yn raddol. Hefyd, mae gwneud y newid hwn yn gynt yn rhoi'r cyfle i ganfod arbedion o tua £200,000 y flwyddyn a darparu dull rheoleiddio mwy cymesur a chost effeithiol. Mae'r arbedion hyn wedi eu cynnwys mewn rhagamcanion ac ail-ddosbarthwyd yr arian i'n meysydd gwaith eraill fel rhan o'n prosesau cynllunio a chyllidebu blynyddol.

Rydym wedi cyhoeddi'r ffynonellau tystiolaeth a gyfranodd at ddatblygiad ein dull i sicrhau ymhellach safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn cynnwys DPP, ar ein gwefan. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y dystiolaeth sydd wedi llywio ein syniadaeth yn: [www.pharmacyregulation.org/registration/continuing-fitness-practise](http://www.pharmacyregulation.org/registration/continuing-fitness-practise)

## Dadansoddiad cydraddoldeb

Fel rhan o'n holl waith, rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â phobl yr effeithir arnynt gan ein cynigion er mwyn deall yr effaith y gallant eu cael.

### Beth a glywsom

#### 3 A oes unrhyw agwedd ar y newid rydym yn ei gynnig a allai gael effaith negyddol ar gleifion, aelodau'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Oes	302	13.60%
Nac oes	1918	86.40%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2220</b>	<b>100%</b>

Fe wnaeth 44 o ymatebwyr neidio'r cwestiwn hwn. Mae sylwadau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn hwn wedi'u crynhoi yng nghwestiwn pedwar.

#### 4 Oes gennych unrhyw sylwadau ar effaith bosibl y newid i'r fframwaith?

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr (86%) yn meddwl y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar gleifion, aelodau'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol neu unrhyw grwpiau eraill.

Awgrymodd rai ohonynt y dylai'r broses roi ystyriaeth i'r rheini a allai fod â chyfleoedd prin i gael DPP (gweithwyr rhan amser, y rheini sydd wedi dychwelyd i ymarfer yn ddiweddar, y rheini mewn rolau nad sy'n rhai ymarfer).

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylem, pan fyddwn yn galw am gofnodion DPP gweithwyr fferyllol proffesiynol, roi ystyriaeth i bwysau allanol megis salwch, gwyliau, cyfrifoldebau rôl gofalwyr, cyfnod mamolaeth ac adegau prysur o'r flwyddyn.

Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai cofnodi ar-lein rheolaidd fod yn broblem i'r rheini sy'n cael anhawster i gael mynediad at gyfrifiadur neu sydd heb fynediad i'r rhyngwyd.

### **Ein hymateb**

Rydym wedi derbyn peth adborth defnyddiol yn ystod yr ymgynghoriad a ddefnyddir i ddiweddarau ein dadansoddiad o effaith ar gydraddoldeb.

Roedd yr holl sylwadau'n ymwneud ag effaith ar gydraddoldeb yn gysylltiedig i agweddau o'n proses galw ac adolygu DPP na wnaethom ymgynghori arnynt oherwydd nad oeddem wedi cynllunio unrhyw newidiadau i'n polisi yn y maes hwn. Rydym eisoes yn darparu cyfleoedd i wneud cais am addasiadau rhesymol i'n prosesau yn cynnwys cyflwyniadau papur, darparu estyniadau, neu leihau nifer yr eitemau sy'n ofynnol fel rhan o gofnod DPP. Gellir gwneud cais am yr addasiadau hyn ymlaen llaw ac fe'u hadolygir yn unigol.

Clywsom fod rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai gwahanol leoliadau gwaith neu batrymau gwaith effeithio ar eu gallu i gael DPP a'i gofnodi. Eto, nid ydym yn newid ein polisi yn y maes hwn. Mae ein gofynion DPP yr un mor berthnasol i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol. Ni chânt eu newid gan ffactorau megis math o bractis fferylliaeth neu gyflogaeth rhan amser.





## Atodiad A: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Carters Chemist

Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y Deyrnas Unedig (APTUK)

Ayrshire & Arran APPC

Chilton Chemist Ltd

Co-operative Healthcare

Dispharma Retail Ltd

Dolphins Pharmacy

Heath Pharmacy

HMR CCG

Lo's Pharmacy Group

Cymdeithas Genedlaethol Fferyllwyr sy'n Fenywod

Cymdeithas Genedlaethol y Fferyllwyr

GIG Glasgow Fwyaf a Clyde

Nottingham North and East CCG

Orchard Pharmacy

Pharmacists' Defence Association

Pharmacy Voice

Rowlands Pharmacy

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Superdrug

Weldricks Pharmacy

Yn ogystal ag un sefydliad dienw